ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

The world's No. 1 online homework solution

Enw : Dosbarth :

PIN Disgybl : PIN Rhieni :

29ain o Fedi 2017

# Ffordd newydd i gofnodi, olrhain a monitro gwaith cartref ym Mryntawe.

Rydym yn llawn cyffro ein bod yn lansio 'Show My Homework', offeryn ar-lein i'ch helpu i olrhain gwaith cartref eich plentyn. Bydd Show My Homework yn eich galluogi i weld manylion y tasgau a osodwyd ar gyfer eich plentyn, y terfynau amser a'u statws cyflwyno a graddau. Rydym wedi penderfynu cyflwyno'r system hon i wella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â rhieni a rhoi gwell dealltwriaeth i chi o'r gwaith cartref rydym yn ei osod.

Mae'ch manylion mewngofnodi ar gyfer eich cyfrif personol sy'n gysylltiedig â chalendr gwaith cartref eich plentyn wedi'i nodi uchod, ar ol mewngofnodi byddwch yn gallu gweld rhestr tasgau eich plentyn ac unrhyw waith cartref sy'n hwyr. Ewch i www.showmyhomework.co.uk/login er mwyn cael mynediad i'ch cyfrif personol.

I weld yr holl waith cartref heb y manylion mewngofnodi, ewch i www.bryntawe.swansea.sch.uk **a** ddolen 'Show My Homework' ar y dudalen blaen. Sylwer bydd angen defnyddio'r dewislen i newid yr opsiynau ar frig y dudalen i ganfod gwaith cartref eich plentyn.

- Mynediad 24/7
- Gweld safon a faint o waith cartref sydd i'w wneud
- Cyfieithiad i dros 50 o ieithoedd gan gynnwys Cymraeg.
- Aps ar gael ar gyfer dyfeisiau iPhone, iPad, iPod Touch ac Android
- Derbyn negeseuon awtomataidd cyn bod gwaith cartref yn ddisgwyliedig

Byddwn yn dechrau lansio Show My Homework i flynyddeodd 10 ac 11 o ddydd Llun 2il o Hydref – a wnewch chi sicrhau bod mynediad gyda chi a'ch plentyn i'r system yma cyn hanner tymor gan fydd POB darn o waith cartref . Rydym yn gobeithio y bydd y gwasanaeth hwn yn rhoi gwell dealltwriaeth i rieni o'r gwaith cartref y mae eich plant yn ei dderbyn. Yn bwysicach, rydym yn gobeithio y bydd yn gwella sgiliau trefnu, rheoli amser eich plentyn ac yn ei helpu i gadw ar ben ei lwyth gwaith.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn, lawrlwythwch yr ap Show My Homework, yna byddwch yn derbyn negeseuon sy'n rhoi gwybod i chi pryd y dylid dychwelyd y gwaith cartref. Byddwch hefyd yn cael gwybod am raddau, gwaith cartref sy'n hwyr a chyhoeddiadau/digwyddiadau.

Os oes gennych chi neu'ch plentyn unrhyw gwestiynau am y gwasanaeth, cysylltwch â'r tîm Show My Homework, sydd bob amser yn falch o helpu. E-bostiwch help@showmyhomework.co.uk neu ffoniwch 0207 197 9550.

Os hoffech gysylltu â'r ysgol neu roi adborth, cysylltwch â **Mr Mark Bridgens.**

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth,

Yn gywir,

**Mark Bridgens**
Pennaeth Cynorthwyol